## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn sy'n gymwys i Gymru, yn rhoi Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/89/EC (OJ Rhif L316, 1.12.2001, t.5) ar waith a honno'n adolygu camau'r Gymuned i reoli clwy clasurol y moch. Mae'n dirymu a disodli Gorchymyn Clwy'r Moch (Cyfyngiadau ar Ardaloedd Heintiedig) 1956 a Gorchymyn Clwy'r Moch 1963.

Mae'r Gorchymyn hwn—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n amau bod mochyn neu garcas wedi ei heintio â chlwy clasurol y moch (y clefyd) roi gwybod i'r rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol a pheidio â symud dim byd oddi ar y safle a allai fod wedi cael ei heintio â'r clefyd nes i'r arolygydd milfeddygol gyrraedd (erthygl 4);

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad sy'n gorfodi cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn yr hysbysiad mewn amgylchiadau lle y mae'n amau bod y clefyd efallai yn bresennol (erthygl 5);

(c) yn caniatáu i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad pellach sy'n gosod cyfyngiadau ychwanegol i'r rhai sy'n ofynnol gan erthygl 5 (erthygl 6);

(ch) os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol ar ddaliad, yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y daliad yn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau y cydymffurfir â'r cyfyngiadau a'r gofynion yn erthygl 5 ac unrhyw ofynion yn erthygl 6 sy'n gymwys (erthygl 7);

(d) yn nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol mewn lladd-dy, mewn abwyfa neu ar gyfrwng cludo (erthygl 8);

(dd) yn nodi'r camau y dylid eu cymryd pan amheuir bod y clefyd wedi cael ei drosglwyddo i'r safle heintiedig neu sydd o dan amheuaeth neu ohonynt i safle arall neu ohono (erthygl 9);

(e) yn darparu ar gyfer sefydlu parthau rheoli dros dro (erthygl 10);

(f) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, pan gaiff y clefyd ei gadarnhau, ddatgan ardal heintiedig o gwmpas lleoliad y safle lle y cafwyd achos o'r clefyd ac yn darparu eu bod yn cael eu hollti yn barth diogelu a pharth goruchwylio (erthygl 11);

(ff) yn nodi'r gofynion o ran glanhau a diheintio (erthygl 12);

(g) yn nodi'r camau sydd i'w cymryd os y cadarnheir neu yr amheuir bod y clefyd yn bresennol ymhlith moch fferal (erthyglau 13 a 14);

(ng) yn ddarostyngedig i eithriad, yn gwahardd defnyddio'r brechlyn clwy moch clasurol (erthygl 15);

(h) yn rhoi'r pŵer i arolygydd i gymryd camau i sicrhau bod gofynion y Gorchymyn hwn yn cael eu bodloni os yw unrhyw berson yn methu â chydymffurfio â'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny (erthygl 16).

Mae methiant i gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn yn dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ac wedi'i roi yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Is-adran Iechyd Anifeiliaid, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.